**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Tachwedd 2012**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol

*Cefndir*

1. Bil Aelod Preifat yw'r Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol[1] ("y Bil"), a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin 2012 gan Richard Harrington AS (Ceidwadwyr, Watford). Mae'r Bil wedi cael ei basio gan Dŷ'r Cyffredin a chynhelir ail ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 30 Tachwedd 2012.

2. Mae'r Bil yn ymwneud yn bennaf â chryfhau pwerau landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael â thenantiaid sy'n isosod eu hannedd cyfan er mwyn gwneud elw. Y rhesymeg polisi y tu ôl i'r Bil yw sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu meddiannu gan y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai. Bydd y Bil, felly, yn creu troseddau ac yn gwneud darpariaethau eraill yn ymwneud ag isosod ac ildio meddiant dros dai cymdeithasol.

3. Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn crynhoi'r effaith fel a ganlyn –

> *"3. The Prevention of Social Housing Fraud Bill creates new criminal offences of unlawful sub-letting by secure and assured tenants of social housing. It also makes provision concerning the prosecution of these offences (including prosecution powers for local authorities). The Bill additionally provides for courts to make orders for the recovery from tenants of profits made from unlawful sub-letting, either following conviction or in separate civil proceedings. Finally, it provides that an assured tenant of a dwelling-house who parts with possession of, or sub-lets the dwelling-house cannot subsequently regain their status as an assured tenant of the dwelling-house. In this respect, the Bill brings assured tenancies into line with secure tenancies (where the restoration of secure status is already excluded following parting with possession or sub-letting by the tenant)."*

4. Ar 30 Hydref 2012, gosododd Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[2] ar gyfer y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol.

---

[1] Ar gael yn: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/preventionofsocialhousingfraud.html
[2] Ar gael yn: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=240019&ds=11/2012

5. Cafodd y Memorandwm ei drafod gan y Pwyllgor Busnes ar 6 Tachwedd 2012 a chytunodd i'w gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ("y Pwyllgor"), yn unol â Rheol Sefydlog 29.4. Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd wedi gosod terfyn amser i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar y darpariaethau perthnasol, sef 7 Rhagfyr 2012. Caiff y cynnig ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Ionawr 2013.

*Ein barn*

6. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai bwriad y darpariaethau yn y Bil yw atal camddefnyddio tai cymdeithasol.

7. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Bil, pan gafodd ei gyflwyno i Senedd y DU, yn gymwys i Loegr yn unig a bod cymhwyso'r Bil i Gymru yn deillio o benderfyniad bwriadol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Memorandwm yn nodi:

> "*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i ddelio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl.*"

8. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn gwrthwynebu defnyddio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, yn unol â chynnig Llywodraeth Cymru.